Ministry of Justice

# Adolygiad statudol o'r Tariff Anafiadau Atchwip

## Galwad am Dystiolaeth

Mae'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn dechrau ar 6 Chwefror 2024

Ministry of Justice

# Adolygiad Statudol o'r Tariff Anafiadau Atchwip

Galwad am Dystiolaeth

**Galwad am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe**

# Ynglŷn â'r Galwad hwn am Dystiolaeth

**At:** Pawb sydd â diddordeb mewn anafiadau personol sy'n gysylltiedig ag anafiadau atchwip

**Hyd:** Rhwng 06/02/24 a 02/04/24

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur hwn mewn fformat gwahanol) to:**

Civil Justice & Law Policy
Post point 5.25
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
E-bost **whiplash-reform-team@justice.gov.uk**

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 2 Ebrill 2024 at:

Civil Justice & Law Policy
Post point 5.25
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
E-bost: **whiplash-reform-team@justice.gov.uk**

**Papur ymateb:** Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi yn y man yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

# Cynnwys


**Rhagair** 2

**Crynodeb Gweithredol** 3

**Cyflwyniad** 4

**Cefndir** 6

Diwygiadau Deddf Atebolrwydd 2018 6

**Strwythur y tariff** 8

**Newidiadau ers cyflwyno’r tariff** 10

Anafiadau cymysg 10

**Ffactorau ehangach** 12

**Ystyriaethau cydraddoldeb** 14

Gwahaniaethu Uniongyrchol 14

Gwahaniaethu Anuniongyrchol 14

Hybu cyfleoedd cyfartal 15

Gwahaniaethu sy’n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol 15

Meithrin perthnasoedd da 15

Holiadur 17

**Atodiad 1: Rhestr o Ymgyngoreion** 19

**Amdanoch chi** 20

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** 21

**Asesiad Effaith** 23

**Y Gymraeg** 24

**Egwyddorion Galwadau am Dystiolaeth** 25

# Rhagair




Gwnaeth Deddf Atebolrwydd Sifil 2018 (y CLA) newidiadau pwysig i’r broses hawliadau anafiadau personol isel eu gwerth sy’n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffyrdd (RTA), gyda’r mwyafrif ohonynt yn hawliadau ‘anafiadau atchwip’.

Cyflwynodd y CLA system tariff penodedig ar gyfer anafiadau atchwip a oedd yn adlewyrchu lefel sy’n gymesur â’r poen a’r dioddefaint a achosir gan fân anaf o’r fath. Cyflwynodd y CLA hefyd yr angen am dystiolaeth feddygol orfodol i ategu’r hawliadau hyn.

Mae’r tariff yn adlewyrchu bwriad y Llywodraeth i sicrhau bod hawlwyr sydd wedi cael anaf gwirioneddol yn cael iawndal cymesurol sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau, drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o’r tariff, y bydd hyn yn parhau.

Daeth y mesurau i rym drwy Reoliadau a gyflwynwyd ar 31 Mai 2021 a roddodd ar waith y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn Rhan 1 o’r CLA. O dan y rhain, mae dyletswydd statudol ar yr Arglwydd Ganghellor i adolygu’r tariff penodol bob tair blynedd ac i gyflwyno adroddiad gerbron y Senedd.

Bydd y Galwad hwn am Dystiolaeth rôl yn bwysig gan y bydd yn cynorthwyo’r Arglwydd Ganghellor i adolygu’r tariff anafiadau atchwip, ac rwyf yn annog pawb sydd â diddordeb i ymateb. Bydd yr holl sylwadau’n cael eu hystyried a byddant yn rhan o ymarferiad dadansoddi ehangach a fydd yn cael ei gynnal gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd hyn yn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn gadarn, yn gyfoes ac yn cynrychioli ystod eang o safbwyntiau.



**Yr Arglwydd Christopher Bellamy KC**
**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb Gweithredol

Mae Rhan 1 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil 2018 (y CLA) wedi newid sut y mae iawndal am anafiadau atchwip yn cael ei ddyfarnu. Mae’r CLA yn caniatáu i’r Arglwydd Ganghellor bennu tariff iawndal ar gyfer anafiadau atchwip sy’n para hyd at ddwy flynedd ac i wneud rheoliadau i bennu swm y tariffau. Mae’r CLA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor yn adolygu’r tariff anafiadau atchwip yn ddim hwyrach na thair blynedd ar ôl ei weithredu a phob tair blynedd wedi hynny.

Mae’r Galwad hwn am Dystiolaeth yn rhan allweddol o’r adolygiad hwnnw o’r tariff anafiadau atchwip. Bydd yn edrych ar yr hyn sydd wedi newid ers cyflwyno’r mesurau tariff anafiadau atchwip a bydd yn ystyried ei gydrannau (y bandiau hyd, a’r cyfraddau ar gyfer anafiadau atchwip yn unig ac anafiadau atchwip gyda mân niwed seicolegol).

Wrth asesu’r tariff, bydd yr adolygiad yn ystyried sut y mae ffactorau economaidd, fel chwyddiant, wedi cael effaith ers cyflwyno’r tariff ar ddechrau Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 ar 31 Mai 2021, a hefyd a ddylai unrhyw ffactorau ehangach gael eu hystyried fel rhan o’r adolygiad.

Bydd yr holl sylwadau a’r dystiolaeth a gyflwynir yn cael eu hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Cyflwyniad

1. Bwriedir i’r Galwad hwn am Dystiolaeth (CfE) gasglu tystiolaeth fel rhan o’r adolygiad statudol o’r tariff anafiadau atchwip a gyflwynwyd ar 31 Mai 2021. Bydd yr adolygiad yn asesu’r tariff anafiadau atchwip a’i gydrannau, a newidiadau economaidd, sectoraidd a newidiadau ehangach eraill ers ei gyflwyno.

2. Bydd yr adolygiad yn edrych ar newidiadau mewn ffactorau sy’n berthnasol i hawliadau am anafiadau atchwip, yn ogystal â ffactorau ehangach, fel chwyddiant a newidiadau yn y sector hawliadau. Ni fydd yr adolygiad yn asesu i ba raddau mae mesurau’r Rhaglen Ddiwygio Anafiadau Atchwip wedi cyflawni eu hamcanion polisi cyffredinol, sydd y tu hwnt i gwmpas rhwymedigaethau statudol yr Arglwydd Ganghellor.

3. Bydd yr Arglwydd Ganghellor hefyd yn ystyried goblygiadau tebygol gwahanol ganlyniadau posibl yr adolygiad, gan gynnwys yr amcanion diwygio cyffredinol i leihau nifer a chost hawliadau anafiadau atchwip, cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

4. Rydym yn croesawu sylwadau gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes, gan gydnabod y bydd gan rai rhanddeiliaid feysydd gwybodaeth arbenigol ac y byddant yn dymuno canolbwyntio eu tystiolaeth ar y meysydd hynny. Gofynnir i ymatebwyr ystyried y materion sydd wedi’u codi yn y ddogfen hon ac ymateb i’r cwestiynau a ofynnir gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu arall sydd ar gael i ategu eu safbwynt.

5. Bydd yr holl sylwadau a’r dystiolaeth a gyflwynir yn cael eu hystyried a’u defnyddio fel rhan o’r adolygiad statudol o’r tariff anafiadau atchwip i gynorthwyo’r Arglwydd Ganghellor. Bydd yn rhaid i’r Arglwydd Ganghellor gyflwyno adroddiad gerbron y Senedd ar ganlyniad yr adolygiad a gellir cynnwys cyfeiriad at y sylwadau hyn ynddo.

6. Ni chafodd Asesiad o Effaith ei baratoi ar gyfer y papur hwn, gan mai ei ddiben yw casglu tystiolaeth, yn hytrach na chyflwyno cynigion polisi i ymgynghori arnynt.

7. Mae copïau o’r Galwad am Dystiolaeth yn cael eu hanfon at y sefydliadau a restrir yn **Atodiad 1**. Ni fwriedir i’r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan. Croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn, neu sydd â barn ar, unrhyw bynciau yr ymdrinnir â hwy yn y papur hwn. Bydd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

8. Bydd crynodeb gweithredol a set o gwestiynau ar gael yn Gymraeg yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

9. **Bydd y Galwad hwn am dystiolaeth ar agor am 8 wythnos a daw i ben ar 2 Ebrill 2024.**

# Cefndir

## Diwygiadau Deddf Atebolrwydd 2018

10. Mae anafiadau atchwip yn anafiadau i'r feinwe feddwl, sy'n effeithio ar y gwddf a'r cefn gan amlaf. Ym mis Mai 2021, rhoddodd y Llywodraeth y Rhaglen Ddiwygio Anafiadau Atchwip ar waith, a oedd yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth i newid y ffordd roedd iawndal yn cael ei ddyfarnu i hawlwyr am anafiadau atchwip isel eu gwerth. Ar yr un pryd, lansiwyd porth Hawliadau Anafiadau Swyddogol[1] (OIC), gwasanaeth ar-lein i wneud, i negodi a phennu hawliadau am anafiadau personol sy'n gysylltiedig â damweiniau traffig ar y ffordd, i gynorthwyo hawlwyr sydd wedi'u heffeithio gan y diwygiadau.

11. Cyn cyflwyno Rhan 1 o'r CLA[2], lle na ellid cytuno ar iawndal am anafiadau drwy negodi, y llys fyddai'n penderfynu ar iawndal. Byddai'r llys yn ystyried, ymhlith pethau eraill, ddifrifoldeb a hyd yr anafiadau, a lefelau blaenorol iawndal am anafiadau tebyg.

12. Ym marn y Llywodraeth roedd y system hon, a oedd yn aml yn defnyddio Canllawiau'r Coleg Barnwrol[3], wedi arwain at lefelau iawndal a oedd yn anghydnaws â lefel y poen a'r dioddefaint a brofwyd. Er enghraifft, roedd y dyfarniad cyfartalog am anaf atchwip gyda chyfnod prognosis o 9 mis cyn y diwygiadau oddeutu £2,600. Roedd y Llywodraeth yn teimlo bod hyn yn anghymesur â'r anaf a'i fod yn cyfrannu at bremiymau yswiriant uwch i fodurwyr cyffredin.

13. Mae Rhan 1, adran 1 o'r CLA yn cyflwyno diffiniad o anaf atchwip am y tro cyntaf, gyda Rhan 1, adran 3 o'r CLA yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i bennu tariff penodedig o iawndal cymesur am anafiadau atchwip. Cafodd y mesur hwn, yn ei dro, ei weithredu drwy Reoliadau Anafiadau Atchwip 2021[4] (y Rheoliadau) a ddaeth i rym ar 31 Mai 2021.

14. Mae'r tariff yn cyflwyno graddfa esgynnol o daliadau swm penodedig, gyda ffigur tariff priodol ar gyfer unrhyw hawliad penodol yn cael ei benderfynu'n ôl hyd yr anaf atchwip a brofwyd. Mae'r tariff wedi'i rannu, a gellir gwneud hawliadau am anaf atchwip yn unig neu am anaf atchwip a mân anaf seicolegol. Mae'r iawndal y mae gan hawlydd hawl

---

[1] https://www.officialinjuryclaim.org.uk/

[2] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29/contents/enacted/data.htm

[3] Mae Canllawiau'r Coleg Barnwrol ar gyfer Asesu Iawndal Cyffredinol wedi'u llunio i roi fframwaith clir a rhesymegol i asesu iawndal mewn achosion o anafiadau personol. Mae pob argraffiad fel arfer yn cael eu diweddaru i ystyried chwyddiant ers yr argraffiad diwethaf ac i adlewyrchu penderfyniadau llysoedd uwch ar gwantwm. Mae'r llyfr yn cael ei olygu gan weithgor o'r Coleg Barnwrol,

[4] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/642/contents/made

iddo’n dibynnu ar gyfnod prognosis eu hanaf, sy’n rhaid ei gofnodi mewn adroddiad meddygol ategol. Mae’r rheoliadau hefyd yn nodi’r hyn sy’n cyfrif fel tystiolaeth feddygol i ddibenion setlo hawliad anaf atchwip.

15. Gellir caniatáu cynnydd o hyd at 20% i swm y tariff perthnasol os gall yr hawlydd ddangos bod eu hanaf neu eu hamgylchiadau’n eithriadol. Ni roddwyd diffiniad penodol o’r hyn sy’n cyfrif fel amgylchiadau eithriadol, gan y bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

16. Nid yw anafiadau atchwip mwy difrifol sy’n para mwy na 2 flynedd o hyd yn amodol ar y tariff ac mae’n dal i gael ei weithredu yn yr un ffordd ag yr oedd cyn y diwygiadau.

17. Yn ôl y CLA mae’n ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor yn adolygu’r rheoliadau o dan adran 3 (y tariff anafiadau atchwip) yn ddim hwyrach na thair blynedd ar ôl eu gweithredu a chyflwyno adroddiad gerbron y Senedd ar ganlyniadau ac argymhellion yr adolygiad. Mae dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor felly i adolygu’r rheoliadau’n ddim hwyrach na 31 Mai 2024, a phob tair blynedd wedi hynny.

18. Ymrwymodd y Llywodraeth, yn ystod taith Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021 drwy’r Senedd, i asesu dichonoldeb adolygiad cynnar flwyddyn ar ôl gweithredu. Cynhaliwyd asesiad o’r data a oedd ar gael ar setliadau gan ddefnyddio’r gwasanaeth OIC a’r rhai a oedd yn rhan o broses y llysoedd.

19. Roedd hyn yn cadarnhau er bod digon o ddata ar gael ar y broses cyn-llys, roedd y data a oedd ar gael gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF ar hawliadau sydd wedi cyrraedd y llys i gael penderfyniad yn sylweddol is na’r trothwy ar gyfer asesiad effeithiol. Penderfynodd yr Arglwydd Ganghellor felly nad oedd yn briodol cynnal adolygiad ar yr adeg honno.

20. O ganlyniad, yr adolygiad hwn o’r tariff anafiadau atchwip yw'r tro cyntaf i’r gofyniad hwn gael ei gyflawni.

# Strwythur y tariff

21. Mae’r tabl isod yn dangos strwythur y tariff anafiadau atchwip presennol a symiau’r iawndal wedi’u rhannu’n ôl hyd yr anaf, ac yn ôl y math o anaf, fel y nodir yn y rheoliadau.

22. I ganiatáu cynnydd cyson ar hyd y raddfa, yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr anaf, rhoddir yr elfen hyd yr anafiadau fel cynyddrannau tri misol ar gyfer anafiadau sy’n para mwy na chwe mis o hyd ond dim mwy na 18 mis, a chynyddran chwe misol arall ar gyfer anafiadau sy’n para hyd at ddwy flynedd.

23. Mae’r tariff yn pennu dwy set o ffigurau, un ar gyfer anafiadau atchwip yn unig ac un ar gyfer anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol a ddioddefwyd ar yr un pryd. Mae hyn yn sicrhau bod modd talu iawndal yn benodol am fân anaf seicolegol yn unig os yw’n bresennol. Yn y ddau achos, bydd gwerth yr hawliad yn seiliedig ar yr anaf atchwip, fel y bydd hawlwyr yn gallu canfod yr iawndal priodol drwy gyfeirio at y prognosis yn yr adroddiad meddygol.

**Tabl 1: Tariff Anafiadau Atchwip**

| Hyd yr anaf | Swm (anaf atchwip yn unig) | Swm (anaf atchwip a mân anaf seicolegol) |
|---|---|---|
| Dim mwy na 3 mis | £240 | £260 |
| Mwy na 3 mis, ond dim mwy na 6 mis | £495 | £520 |
| Mwy na 6 mis, ond dim mwy na 9 mis | £840 | £895 |
| Mwy na 9 mis, ond dim mwy na 12 mis | £1,320 | £1,390 |
| Mwy na 12 mis, ond dim mwy na 15 mis | £2,040 | £2,125 |
| Mwy na 15 mis, ond dim mwy na 18 mis | £3,005 | £3,100 |
| Mwy na 18 mis, ond dim mwy na 24 mis | £4,215 | £4,345 |

24. Wrth bennu’r ffigurau hyn, roedd y llywodraeth wedi ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys canllawiau a awgrymwyd ar gyfer iawndal a bennwyd gan y farnwriaeth, lefelau cyfartalog yr iawndal am anafiadau atchwip a dalwyd, yn ogystal ag amcanion cyffredinol y llywodraeth i reoli costau a helpu defnyddwyr drwy bremiymau is.

25. Casglwyd data, tystiolaeth ac adborth ar setliadau gwirioneddol a wnaed gan y diwydiant yswiriant a chyfreithwyr hawlwyr. Ar ôl eu pennu, roedd symiau’r tariff hefyd yn adlewyrchu amcangyfrif o chwyddiant yn ystod y tair blynedd dilynol (h.y. 2021-2024) a’r argraffiad mwyaf diweddar (ar y pryd) o Ganllawiau’r Coleg Barnwrol.

26. Holwyd barn yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd cyn cadarnhau’r ffigurau, yn unol â gofynion y CLA.

27. Bwriedir i’r cwestiynau canlynol gasglu tystiolaeth gan ymatebwyr am y tariff i lywio’r adolygiad. Maent yn canolbwyntio ar wahanol rannau o strwythur y tariff, gan gynnwys y symiau, sut mae’r rhain wedi’u rhannu’n ôl hyd yr anaf, a’r gwahaniaeth rhwng anaf atchwip yn unig ac anaf atchwip a mân anaf seicolegol.

28. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth o ba mor rhwydd yw defnyddio’r tariffau, i ddefnyddwyr proffesiynol ac i hawlwyr heb gynrychiolaeth. Mae’n bwysig bod y tariff yn hawdd ei ddeall i’r sawl fydd angen cyfeirio ato i roi gwerth ar hawliad neu i ymateb i gynnig.

**Cwestiwn 1: I ba raddau mae amrediadau hyd yr anafiadau yn Nhabl 1 yn adlewyrchu hyd nodweddiadol anafiadau atchwip?**

**Rhowch resymau a data, pan yn bosibl, i ategu eich barn.**

**Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, a yw rhannu’r tariff yn “anafiadau atchwip yn unig” ac “anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol” yn ddatblygiad addas?**

**Rhowch resymau i ategu eich barn ac awgrymwch opsiwn eraill os yn briodol.**

**Cwestiwn 3: Pa mor hawdd yw’r tariff i’w ddeall, ei defnyddio a’i egluro?**

**Cwestiwn 4: Os oes gennych brofiad o ymwneud â hawlwyr heb gynrychiolaeth, boed drwy gynghori, rhoi cymorth, neu ymateb i hawliadau, beth yw eu profiad o ddefnyddio’r tariff?**

**Cwestiwn 5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar strwythur neu gydrannau’r tariff sy’n berthnasol i’r adolygiad hwn?**

# Newidiadau ers cyflwyno’r tariff

29. Mae’r adran hon yn ceisio deall yr hyn sydd wedi newid yn y sector hawliadau am anafiadau personol ers cyflwyno’r tariff anafiadau atchwip ac a all fod yn berthnasol i’r adolygiad hwn. Er y bydd yr adolygiad yn defnyddio data hawliadau a gedwir yn ganolog gan OIC a GLITEF, rydym yn awyddus iawn hefyd i gael gwybodaeth gan ymatebwyr am eu profiadau personol, wedi’u hategu gan ddata pan fydd hynny’n bosibl.

**Cwestiwn 6: Ers cyflwyno’r tariff anafiadau atchwip, pa newidiadau a fu o ran y ffactorau canlynol a fyddai’n berthnasol i’r adolygiad hwn?**

**a) nifer y setliadau am anafiadau atchwip**

**b) cyfansoddiad y farchnad hawliadau;**

**c) y llwyth achosion; ac**

**d) unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy’n gysylltiedig â hawliadau am anafiadau atchwip.**

## Anafiadau cymysg

30. O dan y CLA, gall llysoedd barhau i ddyfarnu iawndal sy’n adlewyrchu effeithiau cyfunol anafiadau lle mae cymysgedd o anafiadau atchwip (tariff) ac anafiadau nad ydynt yn rhai atchwip a gafwyd ar yr un pryd. Rydym yn awyddus i ddeall sut mae’r tariff anafiadau atchwip wedi effeithio ar hawliadau am anafiadau cymysg.

31. Rydym yn ymwybodol o’r ffactorau sy’n dylanwadu ar roi gwerth i hawliadau cymysg, gan gynnwys yr achos arfaethedig sy’n ymwneud ag anafiadau cymysg, a fydd yn cael ei glywed yn y Goruchaf Lys ym mis Chwefror 2024, a’r diweddariad arfaethedig i ganllawiau’r Coleg Barnwrol. Fodd bynnag, ni all y Llywodraeth wneud sylw ar achosion cyfreithiol arfaethedig na rhagweld yr hyn a fydd wedi’i gynnwys yn y canllawiau diwygiedig.

**Cwestiwn 7: Ym mha ffordd mae cyflwyno’r tariff anafiadau atchwip wedi newid y broses o roi gwerth ar anafiadau i ddiben gwneud cynigion/gwrthgynigion?**

**Cwestiwn 8: Ym mha ffordd mae cyflwyno’r tariff anafiadau atchwip wedi newid y broses o gytuno ar setliadau mewn hawliadau anafiadau cymysg?**

**Cwestiwn 9: Beth ydych chi'n feddwl ddylai gael ei ystyried yn yr adolygiad o ran anafiadau cymysg?**

# Ffactorau ehangach

32. Mae’r adran hon yn ymdrechu i gasglu tystiolaeth o ddylanwad ffactorau ehangach ers cyflwyno’r tariff. Gwneir hyn i ddeall eu heffaith ac i ystyried sut y gellir ystyried y rhain yng nghyd-destun adolygu’r tariff.

## Chwyddiant

33. Mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i adolygu’r tariff bob tair blynedd ac mae wedi creu “byffer” tair blynedd yn y ffigurau i sicrhau bod y cyfraddau wedi ystyried pwysau chwyddiant posibl a ragwelir yn y dyfodol.

34. Cafodd symiau’r tariffau anafiadau atchwip eu pennu gan ddefnyddio’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel mesur cyffredinol o chwyddiant, yn unol â chyngor gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i’r Llywodraeth. Mae hyn y cyd-fynd a’r dull a ddefnyddir mewn achosion eraill, er enghraifft, budd-daliadau, pensiynau’r wladwriaeth ac ardrethi busnes sydd i gyd yn cael eu pennu gyda chyfeiriad at CPI.

35. Mae Tabl 2 isod, yn dangos sut y cafodd ffigurau’r tariff ar gyfer hawliadau gan gynnwys anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol, a gynigiwyd yn 2018, eu huwchraddio a’u diogelu ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio rhagamcan o chwyddiant CPI rhwng mis Mawrth 2021 a Mawrth 2024 ar y pryd. Mae’r Llywodraeth yn cydnabod nad yw’r ffigurau hyn yn ystyried y pwysau chwyddiant annisgwyl ers pennu’r tariff cychwynnol, a bod gwerth real y ffigurau wedi gostwng.

36. Wrth gwrs, mabwysiadwyd dull gwahanol o lunio’r tariff yn Rheoliadau Anafiadau Atchwip 2021, pan gafodd y tariff ei rannu fel anafiadau atchwip ac anafiadau atchwip a mân anafiadau seicolegol (gweler paragraff 23).

**Tabl 2: Tariff dangosol yn dangos uwchraddio’r CPI.**

| *Hyd yr anaf* | *Swm drafft a gynigir yn 2018* | *CPI (wedi’i dalgrynnu)* | *Cynnydd dros 3 blynedd ar ôl ei weithredu (CPI)* |
|---|---|---|---|
| **Dim mwy na 3 mis** | £235 | £250 | £260 |
| **Mwy na 3 mis, ond dim mwy na 6 mis** | £470 | £495 | £520 |
| **Mwy na 6 mis, ond dim mwy na 9 mis** | £805 | £850 | £900 |
| **Mwy na 9 mis, ond dim mwy na 12 mis** | £1,250 | £1,320 | £1,400 |
| **Mwy na 12 mis, ond dim mwy na 15 mis** | £1,910 | £2,015 | £2,040 |
| **Mwy na 15 mis, ond dim mwy na 18 mis** | £2,790 | £2,945 | £3,005 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mwy na 18 mis, ond dim mwy na 24 mis** | £3,910 | £4,125 | £4,215 |

37. Mae’r cwestiynau canlynol yn ymdrech i ddeall gwir effaith chwyddiant ers cyflwyno’r tariff ar 31 Mai 2021.

38. Hoffem hefyd gael tystiolaeth ar unrhyw ffactorau economaidd eraill y mae rhanddeiliaid yn credu sy’n berthnasol i’r adolygiad, fel diweithdra a chyfraddau llog a chyfnewid.

**Cwestiwn 10: Beth fu effaith chwyddiant ar iawndal i hawlwyr ers 31 Mai 2021?**

**Cwestiwn 11: A yw’r CPI yn parhau i fod yn fesur priodol o chwyddiant?**

**Os nad yw, pam?**

**Cwestiwn 12: A yw’r byffer chwyddiant tair blynedd sydd wedi’i ymgorffori yn y tariff anafiadau atchwip yn effeithiol?**

**Os nad yw, beth arall fyddech chi’n ei awgrymu, a pham?**

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw ffactorau economaidd eraill a ddylai lywio’r arolwg?**

## Ffactorau ychwanegol

39. Wrth edrych ar yr hyn sydd wedi newid ers 2021, rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar unrhyw ffactorau ychwanegol eraill sy’n berthnasol yng nghyd-destun yr adolwg.

40. Gofynnir i ymatebwyr ystyried datblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, amgylcheddol neu eraill ers cyflwyno cyfraddau’r tariff ac sy’n berthnasol i’r arolwg.

**Cwestiwn 14: Pa ffactorau eraill sy’n berthnasol yng nghyd-destun adolygu’r tariff?**

**Rhowch resymau wedi’u hategu gan ddata pan yn bosibl.**

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ystyriaethau eraill nad ydynt wedi’u trafod eisoes ac a ddylai gael eu hystyried fel rhan o’r adolygiad?**

# Ystyriaethau cydraddoldeb

41. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion a'r Adran, wrth weithredu eu swyddogaethau, roi 'sylw dyladwy' i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt); a
- meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt).

42. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r Gweinidog a'r adran roi "sylw dyladwy" i'r naw "nodwedd warchodedig" a nodir yn y Ddeddf, sef: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae asesiad o sut mae'r polisi'n effeithio ar y ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi'i gynnal isod.

## Gwahaniaethu Uniongyrchol

43. Mae'r Galwad hwn am Dystiolaeth wedi'i lunio i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r adolygiad statudol o'r Tariff Anafiadau Atchwip i lywio penderfyniad yr Arglwydd Ganghellor ar adolygu'r gyfradd.

44. Ein hasesiad yw nad yw'r tariff anafiadau atchwip, gan gynnwys yr adolygiad ohono nac unrhyw addasiadau posibl a wneir yn sgil hynny, yn debygol o wahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, gan na fydd yn trin neb yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

45. O'r herwydd rydym wedi asesu nad yw'r polisi'n gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Gwahaniaethu Anuniongyrchol

46. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd darpariaeth yn gymwys yn yr un modd i bob unigolyn yn y garfan a effeithir ond a fyddai'n rhoi rhai sy'n rhannu

nodwedd warchodedig dan anfantais benodol o'i gymharu â'r rhai nad ydynt ac na ellir dangos ei fod yn fodd cymesur o gyflawni nod dilys.

47. Nid yw'r Llywodraeth yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am nodweddion gwarchodedig hawlwyr anafiadau personol, ac felly nid oes llawer o ddata i allu adnabod carfanau, nac i wneud tybiaethau dibynadwy.

48. Mae'r tariff anafiadau atchwip yn gymwys i bob hawlydd ag anaf atchwip sy'n para dim mwy na dwy flynedd, gyda swm yr iawndal yn cael ei benderfynu'n ôl hyd disgwyliedig yr hawliad, ac a yw'r anaf yn un atchwip yn unig neu'n un â mân niwed seicolegol hefyd. Bwriad y polisi yw rhoi iawndal addas am y mân anafiadau hyn a lleihau costau cyffredinol yr hawliadau hyn, ac rydym yn asesu a yw'r tariff anafiadau atchwip, gan gynnwys yr adolygiad statudol, yn fodd cymesur i gyflawni'r nodau hyn.

49. Dylid nodi fod rhai hawliadau penodol wedi'u heithrio o'r Protocol Hawliadau Bychain am Ddamweiniau Traffig ar y Ffordd a'r tariff. Mae rhai hawliadau lle mae'r hawlydd yn blentyn ar y dyddiad pan agorodd yr hawliad a lle mae naill ai'r hawlydd neu'r diffynnydd yn barti gwarchodedig fel y'i diffinnir yn rheol 21.1[5].

## Hybu cyfleoedd cyfartal

50. Edrychwyd hefyd sut y mae'r tariff anafiadau atchwip yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfleoedd cyfartal. Nid ydym o'r farn bod y polisi'n cael effaith arwyddocaol ar gyflawni'r nod hwn.

## Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

51. Nid ydym o'r farn bod y darpariaethau'n debygol o arwain at unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ar unrhyw sail, gan gynnwys ar sail anabledd.

## Meithrin perthnasoedd da

52. Rydym o'r farn na fydd dim effaith ar berthnasoedd rhwng y sawl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt.

[5] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/part21#21.1

**Cwestiwn 16: Dangoswch dystiolaeth i ddangos sut y gallai adolygu’r tariff anafiadau atchwip effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.**

# Holiadur

Croesewir ymatebion i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y Galwad hwn am Dystiolaeth:

**Cwestiwn 1: I ba raddau mae amrediadau hyd yr anafiadau yn Nhabl 1 yn adlewyrchu hyd nodweddiadol anafiadau atchwip?**

**Rhowch resymau a data, pan yn bosibl, i ategu eich barn.**

**Cwestiwn 2: Yn eich barn chi, a yw rhannu'r tariff yn "anafiadau atchwip yn unig" ac "anafiadau atchwip a mân anafiadau atchwip" yn gam addas?**

**Rhowch resymau i ategu eich barn ac awgrymwch opsiwn eraill os yn briodol.**

**Cwestiwn 3: Pa mor hawdd yw'r tariff i'w ddeall, ei defnyddio a'i egluro?**

**Cwestiwn 4: Os oes gennych brofiad o ymwneud â hawlwyr heb gynrychiolaeth, boed drwy gynghori, rhoi cymorth, neu ymateb i hawliadau, beth yw eu profiad o ddefnyddio'r tariff?**

**Cwestiwn 5: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar strwythur neu gydrannau'r tariff sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn?**

**Cwestiwn 6: Ers cyflwyno'r tariff anafiadau atchwip, pa newidiadau a fu o ran y ffactorau canlynol a fyddai'n berthnasol i'r adolygiad hwn?**

**a) nifer y setliadau am anafiadau atchwip**

**b) cyfansoddiad y farchnad hawliadau;**

**c) llwyth achosion; ac**

**d) unrhyw ffactorau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â hawliadau am anafiadau atchwip.**

**Cwestiwn 7: Ym mha ffordd mae cyflwyno'r tariff anafiadau atchwip wedi newid y broses o roi gwerth ar anafiadau i ddiben gwneud cynigion/gwrthgynigion?**

**Cwestiwn 8: Ym mha ffordd mae cyflwyno'r tariff anafiadau atchwip wedi newid y broses o gytuno ar setliadau mewn hawliadau anafiadau cymysg?**

**Cwestiwn 9: Beth ydych chi'n feddwl ddylai gael ei ystyried yn yr adolygiad o ran anafiadau cymysg?**

**Cwestiwn 10: Beth fu effaith chwyddiant ar iawndal hawlwyr ers 31 Mai 2021?**

**Cwestiwn 11: A yw'r CPI yn parhau i fod yn fesur priodol o chwyddiant?**

**Os nad yw, pam?**

**Cwestiwn 12: A yw'r byffer chwyddiant tair blynedd sydd wedi'i ymgorffori yn y tariff anafiadau atchwip yn effeithiol?**

**Os nad yw, beth arall fyddech chi'n ei awgrymu, a pham?**

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw ffactorau economaidd eraill a ddylai lywio'r arolwg?**

**Cwestiwn 14: Pa ffactorau eraill sy'n berthnasol yng nghyd-destun adolygu'r tariff?**

**Rhowch resymau wedi'u hategu gan ddata pan yn bosibl.**

**Cwestiwn 15: A oes unrhyw ystyriaethau eraill nad ydynt wedi'u trafod eisoes a ddylai gael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad?**

**Cwestiwn 16: Dangoswch dystiolaeth i ddangos sut y gallai adolygu'r tariff anafiadau atchwip effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.**

# Atodiad 1: Rhestr o Ymgyngoreion

| | |
|---|---|
| AA | Fletchers |
| Admiral | Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant |
| Advantage Insurance Company | Gibraltar Insurance Association (GIA) |
| Ageas Insurance Limited | Hastings Direct |
| AIG | Hill Dickinson |
| Allianz | Irwin Mitchell |
| Cymdeithas Yswirwyr Prydain | JMW Solicitors |
| Cymdeithas Sefydliad Cynorthwyo Defnyddwyr | Keoghs |
| Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol | Kennedys |
| Aviva | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Axa Insurance | LV= |
| Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain | Minster Law |
| Browne Jacobson LLP | Cymdeithas y Cyfreithwyr Damweiniau Moduron |
| Capsticks LLP | Biwro’r Yswirwyr Moduron |
| Carpenters Group | NFU Mutual |
| CFG law | Nicholls Brimble Bhol |
| CILEx | Cymdeithas y Bargyfreithwyr Anafiadau Personol |
| Cyngor ar Bopeth | Sabre Insurance Group |
| Cloisters | Slater and Gordon |
| Clyde & Co | Thompsons Solicitors |
| DAC Beachcroft | Weightmans |
| DWF | Which? |
| eSure | Zurich |

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun.

**Enw llawn:** ______________________________

**Teitl eich swydd** neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r Galwad hwn am Dystiolaeth (e.e., aelod o'r cyhoedd etc.):

________________________________________

**Dyddiad:** ____________________

**Enw'r Cwmni /sefydliad** (os yw'n berthnasol):

________________________________________

**Cyfeiriad:**

________________________________________

________________________________________

**Cod post** ______________________________

Os hoffech inni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn:

☐

Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yn wahanol i'r uchod:

________________________________________

________________________________________

________________________________________

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch ddisgrifiad byr o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli:

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

## Manylion cyswllt y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ)

Anfonwch eich ymateb erbyn 2 Ebrill 2024at:

**Civil Justice and Law Policy**
Ministry of Justice
Post point 5.23
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3157
E-bost: whiplash-reform-team@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion eu sylwadau am y broses Galw am Dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau o'r Galwad hwn am Dystiolaeth ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae ar gael ar-lein hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

Mae fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill ar gael drwy gysylltu â:

**whiplash-reform-team@justice.gov.uk**

## Cyhoeddi ymateb

Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r Galwad hwn am Dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi ymhen rhyw dri mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn:

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o’r bobl a’r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i’r Galwad hwn am Dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu’n unol â chyfundrefnau gwybodaeth (y prif rai yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am inni drin y wybodaeth a rowch inni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help inni petaech yn esbonio pam rydych yn ystyried y wybodaeth yr ydych wedi'i darparu'n gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad o Effaith

Ni chafodd Asesiad o Effaith ei baratoi ar gyfer y Galwad hwn am Dystiolaeth gan fod y pwyslais yn y cam hwn o'r broes ar gasglu gwybodaeth, yn hytrach nag ymgynghori ar set o gynigion. Bydd ymatebion a geir i'r Galwad am Dystiolaeth yn helpu i lywio Asesiad o Effaith yn y dyfodol.

# Y Gymraeg

## Prawf o’r Effaith ar y Gymraeg

Mae fersiwn Gymraeg o’r crynodeb gweithredol a’r cwestiynau sydd wedi’u cynnwys yn y Galwad hwn am Dystiolaeth ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/statutory-review-of-the-whiplash-tariff-cfe

Nid yw cynnwys y ddogfen hon yn effeithio ar wasanaethau’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru.

# Egwyddorion Galwadau am Dystiolaeth

Mae’r egwyddorion y dylai adrannau’r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid pan fyddant yn datblygu polisïau a deddfwriaeth wedi’u nodi yn Egwyddorion Galwadau am Dystiolaeth 2018 sydd i’w cael yma:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Call for Evidence_Principles__1_.pdf

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o’r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gael ar gais oddi wrth yr Is-adran Polisi Cyfiawnder Sifil a’r Gyfraith yn whiplash-reform-team@justice.gov.uk.